

Hysbysiad Preifatrwydd –Diogelu Data. Canllaw i fyfyrwyr (2018 – cyn cofrestru)

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i Goleg Gŵyr Abertawe gydymffurfio a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (2018) (GDPR). Mae hefyd angen iddo gofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'i hysbysu at ba ddibenion y mae'n bwriadu casglu, cadw a defnyddio data personol a sut y gallai'r data hyn gael eu rhannu. Mae fersiwn lawn o'r polisi diogelu data ar gael ar wefan y Coleg.

Sut caiff eich data eu defnyddio gan y Coleg

Mae angen y data rydym yn eu casglu er mwyn:-

- Prosesu a chefnogi'ch cais;
- Bodloni gofynion iechyd a diogelwch a chyfleoedd cyfartal
- Darparu gofal bugeiliol priodol a sicrhau ein bod yn bodloni ein dyletswydd o ofal tuag at bob dysgwr

Pa wybodaeth bersonol mae'r Coleg yn ei chasglu?

Mae'r Data Personol rydym yn ei chasglu yn cynnwys:

- Enw, cyfenw blaenorol ac enw adnabod
- Cyfeiriad a chôd post
- Rhifau ffôn (gan gynnwys rhif symudol)
- Dyddiad geni
- Rhyw
- Cyfeiriad e-bost
- Manylion cyswllt mewn argyfwng
- Gwlad breswyl barhaol
- Dyddiad dod i'r DU
- Cenedligrwydd
- Os yw Saesneg yn ail iaith i chi

Rydym hefyd yn casglu'r data canlynol sy'n ddata categori arbennig er mwyn i ni gydymffurfio â monitro cydraddoldeb yn y Coleg a sicrhau dyletswydd o ofal:

- Cefndir ethnig
- Anabledd neu anawsterau
- Gwybodaeth o'ch ysgol flaenorol ac o'r Awdurdod Addysg Lleol
- Gwybodaeth sy'n berthnasol i gais GDG
- Gwybodaeth feddygol y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohoni tra byddwch yn astudio gyda ni ac sy'n berthnasol i'ch dysgu

Rydym yn gofyn am fanylion eich Mamiaith er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a llywio penderfyniadau ynghylch ein darpariaeth Iaith Gymraeg.

Trefniadau diogelwch

Caiff eich data, boed ar ffurf electronig neu bapur, yn cael eu cadw'n unol â'n polisi naill ai mewn ffeiliau a amddiffynnir gan gyfrinair neu mewn cypyrddau neu ystafelloedd ar glo. Mae gan staff fynediad i'ch data ar sail "angen gwybod" yn unol â'u dyletswyddau yn y Coleg ac maent oll yn ymgymryd â hyfforddiant gorfodol ar y Ddeddf a'u cyfrifoldebau.

Gyda phwy rydym yn rhannu'ch data?

Caiff eich data eu defnyddio neu eu rhannu ag eraill dim ond at ddibenion penodol a ganiateir yn ôl y gyfraith.

Gall y Coleg hefyd rannu eich data â Gyrfa Cymru a Dinas a Sir Abertawe. Mae'r holl rannu data o'r fath wedi'i gynnwys mewn cytundebau rhannu data.

Am ba mor hir bydd y Coleg yn cadw'ch data?

Bydd y Coleg yn cadw'ch data fel a ganlyn:

Math o gofnod	Cyfnod cadw	Diben
Data/cofnodion myfyrwyr, (nid yw'n ofynnol i Lywodraeth Cymru) gan gynnwys data ceisiadau sy'n arwain at gofrestru, llwyddiannau academaidd ac ymddygiad	Am o leiaf 6 blynedd o ddyddiad y mae'r myfyriwr yn gadael y Coleg	Cyfnod cyfyngedig ar gyfer esgeulustod
	Am o leiaf 10 mlynedd ar gyfer geirdaon personol ac academaidd	Galluogi'r Coleg i ddarparu geirdaon am gyfnod rhesymol o amser
	Gellir cadw data personol penodol am byth	Er y bydd rhai geirdaon personol ac academaidd yn mynd yn "hen", gellir bod angen rhai mathau o ddata, e.e. trawsgrifiadau o raddau myfyrwyr, drwy gydol gyrfa'r myfyriwr.
Cais myfyriwr (data cyn cofrestru) heb gofrestru'n ddiweddarach	Tan ddiwedd y flwyddyn academaidd y mae'r cais yn berthnasol iddi	Cyfnod cyfyngedig ar gyfer esgeulustod
Data myfyriwr a gesglir mewn digwyddiadau/nosweithiau agored	Cânt eu dileu ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol	Cyfnod cyfyngedig ar gyfer esgeulustod

Eich hawliau a'ch dewisiadau

O dan GDPR, mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad i ddata personol y mae'r Coleg yn eu cadw amdanoch
- Gofyn i'r Coleg gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny
- Gwrthod unrhyw brosesu sy'n seiliedig ar eich sefyllfa personol chi (dan rai amgylchiadau)
- Cyfyngu ar brosesu (dan rai amgylchiadau)
- Dileu'ch data (dan rai amgylchiadau)
- Cyflwyno cwyn gerbron Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (yr ICO, sef rheolydd annibynnol diogelu data)

Eich cyfrifoldebau: rydym yn ymdrechu i sicrhau bod y data rydym yn eu cadw'n gywir. A wnewch chi ein hysbysu os bydd unrhyw newidiadau i'ch data, e.e. cyfeiriad, rhif ffôn etc. Gellir dod o hyd i'r ffurflenni ar-lein ac mewn derbynfeydd.

Manylion cyswllt

Mae Polisi Diogelu Data'r Coleg ar gael ar wefan y Coleg.

Os hoffech chi fwy o esboniad am y GDPR neu hoffech chi gael mynediad i ddata personol amdanoch y mae'r Coleg yn eu cadw, cysylltwch â'r:

Swyddog Diogelu Data: DPO@gowercollegeswansea.ac.uk

I gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gweler y manylion isod:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Rhif ffôn: 029 2067 8400

MIS Mai 2018 F1.0